SAMARITANS Cymru

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Atal Hunanladdiad – noddir gan Jayne Bryant AS
## Dydd Mercher 24 Mai 2023
## Cyfarfod hybrid

**Yn bresennol:** Neil Ingham (y Samariaid), Emma Gooding (y Samariaid), Laura Frayne (y Samariaid), Hannah Swirsky (y Samariaid), Jayne Bryant AS (Senedd Cymru), Gemma Moeller (Heddlu De Cymru), Claire Cotter (Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru), Ceri Fowler (Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru), Olga Sullivan (y Samariaid), Andrea Sullivan (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro), Claire Thomas (Heddlu De Cymru), Tara Robinson (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro), Bethan Hodges (y Samariaid), Vicki Keegans (Heddlu Gogledd Cymru), Philippa Watkins (Senedd Cymru), Sian Bamford (Heddlu Dyfed Powys), Ana Laing (y Samariaid), Sarah Rushworth (Survivors of Bereavement by Suicide, SOBS), Rachael Robins (4 Mental Health), Gwenno Thomas (Ofcom Cymru), Sonia Giga (Ofcom), Peter Allchurch (Diverse Cymru), Willow C Holloway (Triniaeth Deg i Ferched Cymru, FTWW / Autistic UK), Steve Siddall (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, RNLI), Jemma Rees (Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru), Briony Hunt (y Samariaid), Maggy Corkhill (Co-alc Alliance), Phil Sparrow (Heddlu De Cymru), Madelaine Phillips (Conffederasiwn GIG Cymru), Yr Athro Ann John (Prifysgol Abertawe)

**Ymddiheuriadau:** Chris Cousens (RNLI), Llyr Gruffydd AS, Thomas Hollick (Y Wallich).

### 1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd Jayne Bryant bawb i'r cyfarfod, gan egluro y gallai peth o'r deunydd a fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfod beri trallod i rai. Nododd y gallai'r rhai a oedd yn bresennol gamu i ffwrdd o'r cyfarfod a chael seibiant o'r trafodaethau pe byddai angen iddynt wneud hynny, a bod hawl iddynt ofyn am gymorth yn dilyn y cyfarfod hefyd.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi, a chafodd y cofnodion eu cymeradwyo.

### 3. Hannah Swirsky, Rheolwr Materion Cyhoeddus y Samariaid – y Bil Diogelwch Ar-lein

Rhoddodd Hannah gyflwyniad i'r grŵp am waith y Samariaid ar y Bil Diogelwch Ar-lein. Eglurodd Hannah pam fod diogelwch ar-lein yn bwysig, gan nodi bod hunanladdiad yn fater cymhleth ond bod cynnwys niweidiol ar-lein yn gallu chwarae rhan yn y broses.

Yn ddiweddar, mae'r Samariaid wedi gwneud gwaith ymchwil yn y maes hwn gyda'r Athro Ann John o Brifysgol Abertawe. Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwnnw'n dangos bod pobl yn fwy tebygol o fod wedi hunan-niweidio o ganlyniad i wylio cynnwys niweidiol ar-lein. Dywedodd 83 y cant o'r bobl a holwyd eu bod wedi dod o hyd i gynnwys yn ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio heb

chwilio amdano, a dywedodd 75 ohonynt eu bod wedi gweld y math hwn o gynnwys cyn troi'n 14 oed.

Mae gan y Samariaid raglen rhagoriaeth ar-lein sy'n darparu canllawiau ar gyfer y diwydiant. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac yn darparu canllawiau i gefnogi ymarferwyr. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Samariaid ymgyrch i hyrwyddo canllawiau ynghylch sut i siarad am hunanladdiad ar-lein, gan weithio gyda phobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth ar Instagram.

Eglurodd Hannah mai bwriad Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU yw sicrhau mai'r DU yw'r lle mwyaf diogel yn y byd i fynd ar-lein, a hynny drwy gyflwyno rheolau newydd ar gyfer gwefannau sy'n cynnig cynnwys gan ddefnyddwyr unigol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a fforymau eraill, yn ogystal â pheiriannau chwilio. Bydd angen mynd i'r afael â deunydd anghyfreithlon sy'n cael ei flaenoriaethu yng nghyd-destun pawb, a bydd angen cymryd camau penodol i atal plant rhag gweld cynnwys sy'n niweidiol ond nad yw'n anghyfreithlon. Bydd yn rhaid i'r gwefannau mwyaf - fel Facebook neu Twitter - hefyd ddarparu adnoddau sy'n caniatáu i oedolion reoli'r cynnwys y maent yn ei weld.

Mae argymhellion polisi y Samariaid fel a ganlyn:

- dylid blaenoriaethu camau gweithredu mewn perthynas â chynnwys sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio, a hynny yng nghyd-destun ymdrechion deddfwriaethol a rheoleiddiol i leihau niwed ar-lein
- dylid gorfodi pob llwyfan ar-lein sy'n cynnig gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, waeth beth yw ei gyrhaeddiad, i gael gwared ar gynnwys niweidiol a gynhyrchir gan ddefnyddwyr sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio
- dylid cefnogi'r cam o greu trosedd newydd, sef annog neu gynorthwyo hunan-niweidio, yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr). Fodd bynnag, ni ddylid fframio gweithgarwch gorfodi neu droseddau mewn ffordd sy'n troseddoli neu'n stigmateiddio pobl sy'n agored i niwed, nac mewn ffordd sy'n cyfyngu ar y math o gymorth a ddarperir gan gymheiriaid ar-lein y mae pobl yn ei werthfawrogi.

Eglurodd Hannah fod y Samariaid, er eu bod yn cytuno y dylai plant fod yn destun mesurau diogelu cryf ar-lein, hefyd o'r farn nad yw'r ffaith bod pobl yn oedolion o reidrwydd yn eu diogelu rhag y cynnwys niweidiol hwn. Mae mwy o reolau ar gyfer y llwyfannau mwyaf, ond nid yw hyn, mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'r ffordd yr ydym i gyd yn defnyddio'r rhyngrwyd. Rydym i gyd yn debygol o weld cynnwys ar ystod o fforymau. Yn sgil y gyfraith newydd, gallai fod perygl bod rhai rhannau o'r rhyngrwyd yn fwy diogel nag eraill.

Er mwyn sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen, mae'r Samariaid wedi defnyddio nifer o dactegau gwahanol. Er enghraifft, mae'r sefydliad wedi cyhoeddi adroddiad polisi, gwneud cyflwyniadau seneddol, siarad â gwleidyddion, gofyn i ymgyrchwyr siarad â gwleidyddion am eu profiadau, a defnyddio'r cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol i ddylanwadu ar farn y cyhoedd. Nododd Hannah y ddwy fuddugoliaeth wych a gafodd y Samariaid yn ddiweddar, o ran y pethau y mae'r sefydliad yn ceisio eu newid yn y gyfraith newydd. Yn gyntaf, mae Llywodraeth y DU wedi ysgrifennu yn y gyfraith newydd fod cynnwys anghyfreithlon sy'n ymwneud â hunanladdiad yn flaenoriaeth. Mae cynnwys y mater dan sylw yng ngeiriad y gyfraith yn y modd hwn yn gam hynod bwerus, a fydd yn bendant yn arwain at gamau i gyfyngu ar fynediad i'r cynnwys niweidiol hwn.

Yn ogystal, mae'r Llywodraeth bellach wedi cyflwyno gwelliant i'r Bil i greu trosedd newydd, sef annog neu gynorthwyo hunan-niweidio, ac wedi datgan y bydd cynnwys anghyfreithlon sy'n ymwneud â hunan-niweidio hefyd yn flaenoriaeth. Roedd hyn yn dilyn argymhellion a wnaed gan

Gomisiwn y Gyfraith yn 2020. Mae hyn yn golygu y bydd geiriad y gyfraith newydd yn cyfeirio'n benodol at y broses o fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae'r Samariaid yn gweithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau bod y gyfraith newydd yn canolbwyntio ar gynnwys maleisus, ac i sicrhau nad yw'n effeithio ar y cymorth sydd ar gael i bobl.

Nododd Hannah fod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau, dim ond dau ddiwrnod ar ôl datgan y byddai trosedd newydd ar hunan-niweidio, na fydd unrhyw fesurau i ddiogelu oedolion rhag cynnwys sy'n beryglus ond sy'n gyfreithlon, megis gwybodaeth fanwl am ddulliau hunanladdiad. Yn lle hynny, bydd oedolion yn cael eu cynghori i wneud newidiadau i'w gosodiadau os nad ydynt am weld y cynnwys hwn. Mae'r Samariaid yn teimlo bod hwn yn gam mawr yn ôl. Eglurodd Hannah mai diben y gyfraith hon yw rheoleiddio'r rhyngrwyd, yn hytrach na darbwyllo pobl i addasu gosodiadau eu porwyr eu hunain; mae pobl sy'n ystyried hunanladdiad yn mynd ati i chwilio am wybodaeth. Mae'r Llywodraeth wedi ysgrifennu yn y gyfraith newydd fod mynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n fodlon bod cynnwys peryglus sy'n gyfreithlon ar gael yn eang i oedolion. Yn syml, nid yw hyn yn gwneud synnwyr.

Mae'r gwaith ymchwil a wnaed gan y Samariaid a Phrifysgol Abertawe wedi dangos ei bod yn hawdd i blant osgoi'r gwiriadau a'r cyfyngiadau oedran sy'n bodoli ar gyfryngau cymdeithasol. Tynnodd cyfranogwyr sylw at y ffaith nad yw'r gofyniad i nodi dyddiad geni yn ddigon o ran gwirio oedran person, gan ei bod yn rhy hawdd defnyddio pen-blwydd ffug i fynd o'r tu allan i'r system. Wrth gwrs, bydd cyfundrefn fwy cynhwysfawr ar gyfer sicrhau diogelwch ar-lein pobl o bob oedran hefyd yn cynyddu'r mesurau diogelu ar gyfer plant. Mae'r cynigion presennol yn creu dull dwy haen o sicrhau diogelwch, a gallai hynny arwain at y posibilrwydd y bydd plant yn gallu mynd o'r tu allan i reolaethau diogelwch.

Dywedodd Hannah fod y Samariaid, ym mis Rhagfyr, wedi comisiynu arolwg barn cyhoeddus a ganfu fod penderfyniad y Llywodraeth i ddileu mesurau i ddiogelu pobl dros 18 oed rhag cael mynediad at gynnwys niweidiol yn mynd yn gwbl groes i'r hyn y mae'r cyhoedd am ei weld yn y Bil hwn. Dywedodd y cyhoedd wrth y Samariaid eu bod am weld cyfyngiadau cryfach ar gynnwys peryglus sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio, eu bod yn meddwl y gall y cynnwys hwn effeithio ar bobl o bob oed, a'u bod am i'r Llywodraeth reoleiddio yn y maes yn hytrach na gadael i unigolion gymryd cyfrifoldeb am gadw eu hunain yn ddiogel.

Mae gan y Bil ffordd bell i fynd cyn iddo ddod yn gyfraith. Mae wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin, ac mae bellach yn destun trafodaethau pellach yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'r Samariaid wedi bod yn gweithio gydag Aelodau Seneddol ac Arglwyddi er mwyn cyflwyno eu hargymhellion i'r Llywodraeth a chyflwyno gwelliannau i'r Bil. Mae'r Samariaid ar hyn o bryd yn cefnogi gwelliannau a fyddai'n sicrhau bod mesurau i ddiogelu pobl rhag cynnwys niweidiol sy'n ymwneud â hunanladdiad a hunan-niweidio yn berthnasol i bobl o bob oed ar bob llwyfan. Yr wythnos diwethaf, cafodd y gwelliannau hyn eu trafod yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Dywedodd Hannah fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi ei chydsyniad ym mis Rhagfyr i'r Bil fod yn gyfraith. Bydd y Samariaid yn parhau i gynnwys eu hymgyrchwyr a phobl sydd â phrofiad byw yn y broses hon, a hynny er mwyn atgoffa pawb pam fod cymryd y camau cywir mor bwysig. Bydd yn gweithio gydag Ofcom wrth i'r sefydliad hwnnw baratoi i'r Bil ddod i rym.

4. **Maggy Corkhill, Co-alc Alliance – hunanladdiad / marwolaeth sydyn sy'n gysylltiedig â Cocaethylene**

Esboniodd Maggy fod y Co-alc Alliance yn cael ei ariannu gan Sefydliad Jacob Abraham a'i fod wedi cael ei sefydlu ganddi hi a theuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth – Nicola Abraham o Sefydliad Jacob Abraham, Nicola Smerdon o 4Tom a Nadine Taylor a Mandy Naylor o'r Ginger Heart Foundation. Mae'r Co-alc Alliance yn cynnig gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc a chymorth ôl-ymyrraeth i deuluoedd drwy Sefydliad Jacob Abraham a 4 Tom.

Esboniodd Maggy fod alcohol a chocên, os ydynt yn cael eu cymryd gyda'i gilydd, yn creu cocaethylene, sy'n rhwystro'r ymennydd rhag ail-amsugno dopamin, sy'n gysylltiedig â'r effeithiau sy'n newid hwyliau person. Ar ôl iddo gael ei ffurfio, mae cocaethylene yn aros yn y corff dair i bum gwaith yn hirach na chocên.

Cynhaliodd y Co-alc Alliance arolwg ar gyfryngau cymdeithasol yn 2020 a 2022 er mwyn canfod mwy o wybodaeth am brofiadau pobl yn eu cymunedau, a chafwyd dros 1,000 o ymatebion. Roedd 74 y cant o bobl yn adnabod person a oedd wedi cymryd ei fywyd ei hun neu wedi marw'n sydyn ar ôl cymryd cyffuriau ac alcohol gyda'i gilydd. Canfu'r arolwg nad oedd llawer o'r bobl a fu farw wedi dod i gysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn flaenorol. Dywedodd Maggy fod pryderon penodol wedi'u mynegi hefyd am bobl ifanc o dan 25 oed, ac effaith cocaethylene arnynt pan nad yw eu hymennydd wedi datblygu'n llawn. Mae pryderon hefyd ynghylch y ffaith bod dynion yn llai tebygol o siarad am unrhyw faterion iechyd meddwl y maent yn eu profi, a'u bod yn troi at alcohol a chyffuriau yn lle hynny.

Nododd Maggy fod goryfed yn aml yn cael ei ystyried yn rhan dderbyniol o ddiwylliant y DU ac yn ffordd o ymdopi. Dywedodd ein bod yn gwybod, er bod hunanladdiad yn fater cymhleth, y gall goryfed mewn pyliau gynyddu'r tebygolrwydd o geisio hunanladdiad. Mae'r defnydd o gocên wedi dod yn fwy poblogaidd ymhlith pobl ifanc, gyda llawer o ddefnydd hamdden o'r cyffur. I rai, mae'n ffordd dderbyniol o gymdeithasu. Soniodd Maggy am y ffaith bod cyffuriau ac alcohol yn gyfuniad peryglus, gan nodi bod cyffuriau yn aml yn cuddio effeithiau alcohol ac yn gwneud i bobl deimlo'n fwy effro. Mae cocaethylene hefyd yn aros yn y system am ddyddiau, ac mae cymryd cymysgedd o alcohol a chocên yn gallu arwain at effeithiau penfeddwol a negyddol dwys. Mae'r Co-alc Alliance hefyd yn ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng cocaethylene a cham-drin domestig.

Tynnodd Maggy sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r mater hwn. Eglurodd fod angen mwy o dystiolaeth ynghylch effaith cocaethylene a'r problemau sy'n bodoli o ran y wybodaeth sy'n cael ei chofnodi gan grwneriaid. Nid yw adroddiad tocsicoleg llawn yn cael ei lunio bob amser, ac mae'r Co-alc Alliance am weld y broses hon yn cael ei safoni. Nododd Maggy fod y mater hwn yn cael effaith fawr ar deuluoedd sy'n dioddef profedigaeth. Maent yn sôn am y ffaith eu bod yn teimlo stigma ychwanegol os yw cyffuriau yn rhan o'r darlun, a bod hyn yn eu hatal rhag ceisio cymorth ôl-ymyrraeth.

Nododd hefyd fod y papur ymchwil a gyhoeddwyd gan James Bailey et al ym mis Mawrth 2021, sef "Alcohol and cocaine use prior to suspected suicide: Insights from toxicology" (Saesneg yn unig), yn datgan: "*The work of this study highlights the need to reconsider the lack of emphasis given to substance use in many national suicide prevention strategies as well as the need for increased public education about, and public health interventions to address alcohol and cocaine use in suicidal acts.*"

Mae'r Co-alc Alliance wedi ffurfio partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, sy'n gwneud gwaith ymchwil pellach ar y mater hwn. Mae'r Co-alc Alliance yn awyddus i barhau i weithio gyda sefydliadau eraill ac i sicrhau cyfleoedd i weld data o'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiad Amser Real (RTSSS) dros Gymru, gan ystyried sut y gallai hynny helpu. Soniodd Maggy hefyd am y gynhadledd y mae'r Co-alc Alliance yn ei chynnal ar 12 Gorffennaf, gan rannu lincs at ddibenion cofrestru.

Diolchodd Jayne i Maggy am ei chyflwyniad a gofynnodd a fyddai modd iddi roi diweddariad ar y gynhadledd yn y cyfarfod nesaf.

**Cam i'w gymryd: Maggy i roi diweddariad ar gynhadledd y Co-Alc Alliance yn ystod cyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol.**

## 5. Cwestiynau a'r camau nesaf

Gofynnodd Jayne i Maggy am y gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud ynghylch cocaethylene ar hyn o bryd. Eglurodd Maggy fod gwaith ymchwil wedi'i wneud gan Brifysgol Brown a Choleg y Brenin yn Llundain, sydd hefyd yn edrych ar y gwaith ymchwil a wnaed ynghylch y cysylltiadau rhwng diffyg cwsg a hunanladdiad. Dywedodd Maggy fod angen inni feddwl am sut y gallwn godi ymwybyddiaeth ynghylch y mater hwn, a hynny yn sgil y ffaith nad yw llawer o bobl yn ystyried bod defnyddio alcohol a chocên yn broblem.

Gofynnodd Maggy i Hannah Swirsky am yr ymgyrch Baton of Hope, ac a fyddai'n werth sicrhau gweledededd o ran yr ymgyrch honno fel rhywbeth i dynnu sylw at waith y Samariaid. Eglurodd Hannah fod trefnwyr yr ymgyrch Baton of Hope wedi siarad ag Aelodau Seneddol mewn cyfarfod diweddar o'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Hunanladdiad yn San Steffan. Y Samariaid sy'n darparu gwasanaethau ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp hwnnw. Yn ogystal, mae sefydliad 3 Dads Walking, sy'n cefnogi Papyrus, yn siarad yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Diolchodd Neil Ingham i Maggy am ei chyflwyniad, gan nodi bod rhai pwyntiau cymhellol wedi'u gwneud am cocaethylene. Dywedodd fod hyn yn ein helpu i ystyried y risg o hunanladdiad yn fwy cyffredinol, a bod angen ystyried pam mae cyffuriau ac alcohol yn cael eu defnyddio fel dulliau ymdopi. Dywedodd hefyd y gallai hyn ein helpu i feddwl am sut i ymgysylltu â dynion sy'n wynebu risg. Cafwyd trafodaeth yn y blwch sgwrsio am ddefnyddio gwyliau cerddoriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn, o ystyried y defnydd o gyffuriau ac alcohol. Eglurodd Maggy fod hwn yn faes yr hoffai ei drafod, ochr yn ochr â thargedu economi'r nos a hysbysebu ar fatiau cwrw a drysau tafarndai ac ati. Ychwanegodd Emma fod gan sefydliad y Samariaid wirfoddolwyr yn ei gangen ar gyfer gwyliau, sy'n teithio ar draws y DU er mwyn darparu cefnogaeth emosiynol 24 awr mewn gwahanol wyliau. Eleni, byddant yn bresennol yng ngŵyl In It Together a Gŵyl y Dyn Gwyrdd yng Nghymru.

Gofynnodd Sarah Rushworth a fyddai adroddiadau mwy manwl gan grwneriaid yn helpu'r broses o asesu effaith cocaethylene. Eglurodd Maggy fod y Co-alc Alliance yn gobeithio y bydd data sy'n deillio o'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiad Amser Real yn helpu'r gynghrair i gronni rhagor o dystiolaeth. Eglurodd Ann John mai symiau cymharol fach o ddata a gaiff eu casglu drwy'r System Gwyliadwriaeth Hunanladdiad Amser Real. Felly, mae mwy o waith i'w wneud o hyd o ran sefydlu'r manylion ystyrlon sy'n sail i'r cyfraddau. Bydd y broses o ymwreiddio'r system newydd yn cymryd amser, ond mae llawer o botensial yn gysylltiedig â'r hyn y gallai ei wneud.

**6. Pwnc ar gyfer y cyfarfod nesaf a chloi'r cyfarfod**

Diolchodd Jayne i bawb am ddod, a chadarnhaodd y bydd y cyfarfod nesaf ar 21 Medi. Cynigiodd Jayne roi Maggy mewn cysylltiad â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Gamddefnyddio Sylweddau er mwyn iddi allu rhannu'r wybodaeth hon ag aelodau'r grŵp hwnnw. Yn ogystal, awgrymodd y dylid ysgrifennu llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ofyn am ragor o waith ymchwil yn y maes hwn.
**Cam i'w gymryd: Jayne i roi Maggy mewn cysylltiad â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Gamddefnyddio Sylweddau.**
**Cam i'w gymryd: Jayne i ysgrifennu llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ofyn am ragor o waith ymchwil ynghylch cocaethylene.**

Awgrymodd Jayne hefyd y dylai wahodd y Dirprwy Weinidog i'r cyfarfod a gynhelir ym mis Medi er mwyn rhoi cyfle iddi roi cyflwyniad ar gynlluniau ar gyfer y strategaeth nesaf ar hunanladdiad a hunan-niweidio.
**Cam i'w gymryd: Jayne i wahodd y Dirprwy Weinidog i roi cyflwyniad ar y strategaeth atal hunanladdiad yn y cyfarfod ym mis Medi.**

Awgrymodd Jayne y dylid cael cyflwyniad gan Samariaid Cymru ar ystadegau hunanladdiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2022, sy'n cael eu cyhoeddi ddechrau mis Medi. Yn seiliedig ar ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, awgrymodd Jayne y dylid cael diweddariad llafar gan y cydgysylltydd rhanbarthol perthnasol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niweidio ynghylch yr hyn sy'n cael ei wneud i liniaru risg hunanladdiad yn yr ardaloedd sydd â'r cyfraddau hunanladdiad uchaf.

Yn ogystal, awgrymwyd y gellid gofyn i bobl ifanc o'r Prosiect Ambr wneud cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf, a hynny ar ffurf eu darn theatr sy'n seiliedig ar eu profiadau bywyd ym maes gwasanaethau iechyd meddwl. Holodd Ceri Fowler a fyddai'r cyflwyniad yn cael ei wneud gan gydlynydd

rhanbarthol neu'r cydlynydd cenedlaethol. Cadarnhaodd Jayne y gallai'r naill neu'r llall wneud cyflwyniad i'r grŵp ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

**Cam i'w gymryd: Y Samariaid i gyflwyno ystadegau hunanladdiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y cyfarfod ym mis Medi**
**Cam i'w gymryd: Y Cydlynydd Cenedlaethol neu Gydlynydd Rhanbarthol ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niweidio i wneud cyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes, a hynny mewn perthynas ag ystadegau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a gafodd eu cyhoeddi ym mis Medi.**